# Kiln Park Road: Y llwybr cyd-ddefnyddio a'r llwybr ar gyfer cerbydau nwyddau trwm

## Lleoliad: Arberth



Kiln Road Llwybr SUP Posibl













Mae'r trefniant presennol ar hyd Kiln Park Road yn cynnwys mannau cyfyng cul (1), cysgodfan fysiau bresennol ar gyfer Llwybr 381 (2), llwybr troed cul wedi'i orchuddio gan glawdd (3), a pharcio ar y stryd gyda sawl pwynt mynediad (4).

## Beth yw'r sefyllfa bresennol ar Kiln Park Road?

- Mae'r llwybr troed cul ar yr ochr orllewinol yn aml wedi'i ordyfu gan lystyfiant
- Troedffordd ysbeidiol ar yr ochr ddwyreiniol gyda sawl pwynt mynediad
- Cysylltedd gwael â Gorsaf Reilffordd Arberth o Jesse Road
- 'Dolen gyswllt ar goll' o ran llwybrau teithio llesol ac anghenion hygyrchedd
- Gwasanaethir gan Lwybr Bws 381 gyda gwasanaeth bob awr rhwng 8.07am a 6.30pm, rhwng Hwlffordd a Dinbych-y-pysgod

## Pa welliannau a gynigir ar hyd Kiln Park Road?

- Creu llwybr cyd-ddefnyddio ar hyd Kiln Park Road, y tu ôl i'r clawdd presennol, i wella ac annog cerdded a beicio wrth ddarparu gwahaniad oddi wrth gerbydau, a gwell cysylltedd rhwng yr ysgol a'r orsaf.
- Gwyriad arfaethedig i gerbydau nwyddau trwm o amgylch Arberth, er mwyn cael gwared ar draffig trwodd a lleddfu tagfeydd, ar hyd y B4314 (Tredemel) a'r A4075 (Cross Hands).
- Cadw hygyrchedd ar gyfer traffig lleol a cherbydau nwyddau trwm i lwytho a dadlwytho yng nghanol pentref Arberth.



**Dargyfeiriad arfaethedig ar gyfer cerbydau nwyddau trwm**

Llwybr arfaethedig (mewn glas) a dewis arall (mewn porffor). Dargyfeirio cerbydau nwyddau trwm o amgylch Arberth ar hyd yr A478 i'r B4314 (Princes Gate) ac yna ymlaen i Dredemel. Yn y gorllewin, bydd y dargyfeiriad ar hyd yr A4075 Pont Canaston i Dredemel.

Strategaeth trafnidiaeth CSP

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government